Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad ar y Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012 (Saesneg yn unig)**

Y Cefndir

1. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyflwyno hysbysiad ynglŷn â chynnig–
"Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011("y Ddeddf"), fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd EM a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012 ("y Gorchymyn"), yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2012."

2. Trafodwyd y Memorandwm hwn yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes ar 7 Chwefror 2012. Trefnwyd y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y cynnig hwn ar gyfer 17 Gorffennaf 2012 yn amodol ar farn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

3. Ysgrifennodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder at Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012 i geisio cytundeb i osod cynnig cydsyniad yn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y darpariaethau yn y Gorchymyn hwn sy'n dod o dan adran 9(6) o'r Ddeddf. Cydsyniwyd â'r cais. Gosodwyd y Gorchymyn o dan adran 11 o'r Ddeddf ar 10 Mai 2012 gerbron Tŷ'r Cyffredin gan Kenneth Clarke, yr Ysgrifennydd Gwladol. Cafodd yr Offeryn hwn ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol ar 23 Mai 2012, ac ni nodwyd unrhyw faterion i adrodd amdanynt i'r ddau Dŷ. Daw'r cyfnod craffu yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 25 Mehefin 2012.

Y Gorchymyn:-

4. Gwneir y Gorchymyn o dan adrannau 1, 6(1), (2)(a) a (5) a 35(2) o'r Ddeddf.

5. Nid yw hwn yn Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o fewn ystyr Rheol Sefydlog 30, gan nad yw'n ymwneud â darpariaethau sydd wedi'u cynnwys mewn Bil gerbron Senedd y DU. Er hynny, mae'n debyg i'r graddau ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sy'n gymwys yng Nghymru mewn perthynas â mater sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, hy Galluedd Meddyliol. Gellir

cymharu hyn â'r Gorchymyn y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau, etc.) 2012, a oedd yn ehangu cymhwysiad egwyddor cydsyniad deddfwriaethol i gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol a wneir drwy Orchymyn gan Weinidogion y DU.[1]

6. Mae'r Gorchymyn yn diddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus ("y Bwrdd") a sefydlwyd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Dyletswydd y Bwrdd yw adolygu a chraffu ar y modd y mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cyflawni ei swyddogaethau a gwneud trefniadau priodol i'r Arglwydd Ganghellor. Mae'r swyddogaethau a roir i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i'w gweld yn adran 58 o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac yn cynnwys swyddogaethau goruchwylio mewn perthynas ag unigolion nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau. Gwneir y penderfyniad i ddiddymu'r Bwrdd yn sgîl canlyniad adolygiad Llywodraeth y DU o gyrff cyhoeddus yn 2010. Yr hyn y bwriedir ei wneud wedi diddymu'r Bwrdd yw disodli swyddogaethau'r Bwrdd drwy gryfhau'r trefniadau llywodraethu o fewn Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, sy'n bodoli fel asiantaeth weithredol i Lywodraeth y DU. Nid oes trosglwyddo swyddogaethau mewn cysylltiad â'r Bwrdd. Yn ogystal â diddymu'r Bwrdd, byddai'r Gorchymyn yn gwneud diddymiadau a dirymiadau yn gysylltiedig â'r diddymu.

7. Mae hwn yn Orchymyn Cyfansawdd sydd hefyd yn cynnwys diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi. Sefydlwyd yr arolygiaeth o dan adran 58 o Ddeddf Llysoedd 2003 ac mae ganddi ddyletswydd statudol i arolygu a chyflwyno adroddiadau i'r Arglwydd Ganghellor ar y system sy'n cefnogi cynnal busnes y Goron, llysoedd Sirol a llysoedd Ynadon a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y llysoedd hynny. O ran yr arolygiaeth, trosglwyddir dwy swyddogaeth i Brif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi. Fodd bynnag, nid yw'r arolygiaeth yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Y Memorandwm Cydsyniad

8. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â "galluedd meddyliol" (o dan Bwnc 9 (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) Atodlen 7; a Phwnc 15 (Lles Cymdeithasol) Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Mae o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu rhyw fath o drefn sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer atal, trin a lliniaru anhwylder meddyliol a/neu ar gyfer gwarchod rhai sy'n agored i niwed. Bernir bod y cymhwysedd hwn yn ddigon eang i sefydlu bwrdd y rhoir iddo'r dasg o gefnogi a diogelu hawliau unigolion sydd ag anhwylder meddyliol a hefyd i sefydlu corff sy'n arfer swyddogaethau tebyg i'r Bwrdd mewn perthynas â Chymru. I'r graddau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd i greu corff o'r fath, byddai ganddo hefyd y pŵer i'w ddiddymu.

9. Mae adran 9(6) o'r Ddeddf yn datgan bod gorchymyn i ddiddymu, cyfuno neu drosglwyddo swyddogaethau corff cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol i wneud darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad pe bai'n cael ei chynnwys mewn Deddf Cynulliad. Mae adran 9(7) o'r Ddeddf yn datgan bod gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth nad yw'n dod o fewn is-adran (6) sydd un ai'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol.

[1] Memorandwm Cydsyniad y Gweinidog ar gyfer Gorchymyn Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau, etc.) 2012 a'r canllawiau sydd yn y Canllawiau ar Ddatganoli, Nodyn 9.

10. Mae'r Gorchymyn, drwy ddiddymu'r Bwrdd, yn deddfu ar gyfer diben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, ac o'r herwydd gofynnir am gydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag adran 9(6) o'r Ddeddf, i'r graddau bod y Gorchymyn yn gwneud darpariaeth i ddiddymu'r Bwrdd mewn perthynas â Chymru. Mae diddymu'r Bwrdd yn bodloni'r meini prawf a nodir o dan adran 9(6) o'r Ddeddf, gan fod gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd mewn perthynas â thriniaeth feddygol a gwasanaethau iechyd, lles cymdeithasol a gofal am rai sy'n agored i niwed. Nid yw diddymu'r Bwrdd yn bodloni'r meini prawf o dan adran 9(7) o'r Ddeddf. Nid yw diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn bodloni'r meini prawf o dan adran 9(6) nac adran 9(7) o'r Ddeddf.

**Casgliad**

11. Ystyriodd y Pwyllgor CLA CM4 – Y Memorandwm Cydsyniad ar gyfer y Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012. Er y nodwyd y byddai wedi bod yn gliriach diddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus ac Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi drwy wneud dau orchymyn gwahanol, nododd y Pwyllgor nad oedd wedi canfod unrhyw reswm pam y dylid gwrthod rhoi cydsyniad i'r Gorchymyn.

12. **Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r wybodaeth sydd ar gael, ac yn adrodd i'r Cynulliad nad yw wedi canfod unrhyw reswm pam na ellir gwneud y Gorchymyn.**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

11 Mehefin 2012